

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru (CMC) yn ymwneud â myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn prifysgolion neu golegau yn y DU

Beth yw Cyllid i Fyfrwyr?

Mae Cyllid Myfyrwyr yn gyfuniad o fenthyciadau, grantiau a chymorth ariannol arall sydd ar gael i helpu myfyrwyr i dalu am gyrsiau addysg uwch mewn prifysgol neu goleg. www.ucas.com/money-and-student-life/money/student-finance/student-finance-wales

I fod yn gymwys ar gyfer cymorth Cyllid Myfyrwyr Cymru, rhaid i fyfyrwyr fod yn dilyn cwrs Addysg Uwch (AU) cymwys mewn prifysgol neu goleg a bodloni'r meini prawf cenedligrwydd, preswyliaid ac astudio blaenorol. I gael trosolwg cynhwysfawr, ewch i: <https://www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk/cyllid-israddedig/israddedig-llawn-amser/ffioedd-dysgu-a-chostau-byw/pwy-sy-n-gymwys/>

Mae tair rhan graidd i becyn cyllid myfyrwyr CMC, sef Benthyciad Ffioedd Dysgu, Grant Cynhaliaeth (gan Lywodraeth Cymru) a Benthyciad Cynhaliaeth.

Ffioedd Addysgu

Yr uchafswm ffi y gall darparwyr addysg uwch arferol yn y DU ei chodi yn 2025/26 yw £9,535. Sylwch nad yw darparwyr preifat yn destun capiau ffioedd. Yr uchafswm ffi ar gyfer cyrsiau gradd carlam yn Lloegr yw £11,100. Fodd bynnag, dim ond hyd at £9,535 y bydd benthyciad ffioedd ar gael a rhaid i'r myfyriwr dalu unrhyw ddiffyg. Ar gyfer darparwyr Preifat nad ydynt yn destun cap ffioedd, dim ond hyd at £6,355 y mae benthyciad ffioedd dysgu ar gael.

Mae Benthyciad Ffioedd Dysgu heb brawf modd ar gael i fyfyrwyr cymwys, y mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn ei dalu'n uniongyrchol i'r brifysgol neu'r coleg ar ôl i'ch plentyn ddechrau eu cwrs.

Benthyciad Cynhaliaeth a Grant

Gall y rhan fwyaf o fyfyrwyr CMC gael cymysgedd o fenthyciad a grant i helpu gyda'u costau byw, fel rhent, bwyd, teithio a chostau eraill.

Bydd y swm a delir yn dibynnu ar ble bydd myfyriwr yn byw tra bydd yn astudio, gan gynnwys a yw'n byw yng nghartref y rhiant neu os yw'n byw oddi cartref (cyfradd ar wahân os yw'n byw yn Llundain).

Bydd swm y grant a delir yn dibynnu ar asesiad incwm. Gall myfyrwyr amser llawn fod yn gymwys, yn amodol ar rai eithriadau, i'r grant sylfaenol o £1,000 nad yw'n seiliedig ar brawf modd. Mae swm ychwanegol o grant cynhaliaeth ar gael i'r rhai sydd ag incwm cartref o hyd at £59,200. Mae uchafswm y grant ar gael i'r rhai sydd ag incwm cartref o £18,370 neu lai.

I gael amcangyfrif o'u hawl i gael cyllid i fyfyrwyr, gall myfyrwyr edrych ar ffigurau'r flwyddyn academiaidd gyfredol: <https://www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk/cyllid-israddedig/israddedig-llawn-amser/ffioedd-dysgu-a-chostau-byw/beth-sydd-ar-gael/>

Asesir incwm y Grant Cynhaliaeth, sy'n golygu y bydd y swm y gall myfyriwr ei dderbyn yn seiliedig ar incwm trethadwy (cyflogau, llog o gynilion, budd-daliadau trethadwy ac ati) eu rhieni neu riant a'u priod/partner sifil neu bartner sy'n cyd-fyw.

Yna "ychwanegir" at swm y grant gyda benthyciad cynhaliaeth i roi cyfanswm ei gynhaliaeth i'r myfyriwr.

Caiff incwm y cartref ei gadarnhau drwy CThEF ac mae'n seiliedig ar y flwyddyn dreth gyflawn ddiwethaf, e.e. os bydd eich plentyn yn dechrau yn y brifysgol ym mlwyddyn academiaidd 25/26, eich ffigwr incwm o 2023/24 fydd yn cael ei ddefnyddio.

Os yw eich incwm wedi gostwng o leiaf 15% yn y flwyddyn dreth gyfredol, gallwch ofyn am asesiad newydd yn seiliedig ar y swm newydd, is a all roi hawl i fyfyrwyr gael lefelau ychwanegol o gymorth.

<https://www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk/incwm-y-flwyddyn-bresennol/pennu-cyfanswm-terfynol-incwm-y-flwyddyn-bresennol/>

Cefnogaeth Arall

Gall myfyrwyr ag anabledd, cyflwr iechyd meddwl, neu anhawster dysgu penodol wneud cais am Lwfansau i Fyfrwyr Anabl (DSAs) a all helpu gyda chostau ychwanegol cysylltiedig ag astudio y gallent eu hwynebu o ganlyniad i'w hanabledd.

Os ydynt yn astudio ar gwrs gofal iechyd cymwys (fel nyrsio) yna gallent hefyd gael cymorth ychwanegol gan Wasanaeth Bwrsariaethau'r GIG. Gall myfyrwyr CMC sy'n astudio cyrsiau gofal iechyd cymwys yng Nghymru ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan Gwasanaethau Dyfarniadau i Fyfrwyr pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-dyfarniadau-myfyrwyr/

Gall myfyrwyr CMC sy'n dilyn cwrs gofal iechyd cymwys yn Lloegr ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan BSA y GIG: www.nhsbsa.nhs.uk/student-services.

Mae llawer o brifysgolion a cholegau hefyd yn cynnig ystod o fwrsariaethau ac ysgoloriaethau i fyfyrwyr yn seiliedig ar feini prawf sy'n amrywio o berfformiad academiaidd i incwm cartref neu fod o grŵp o fyfyrwyr heb gynrychiolaeth ddigonol. Gweler gwefannau prifysgolion/colegau a www.thescholarshipclub.org.uk am ragor o wybodaeth.

Negeseuon Allweddol Cymhwyso ac Asesu

Sicrhewch fod eich plentyn yn gwneud cais am ei gyllid myfyriwr cyn gynted ag y bydd y gwasanaeth ymgeisio yn cael ei lansio.

Nid oes angen lle wedi'i gadarnhau arnynt er mwyn gwneud cais, gallant nodi eu dewis cwrs a'i newid yn ddiweddarach os oes angen.

Sicrhewch fod unrhyw dystiolaeth/gwybodaeth sydd ei hangen fel rhan o gais eich plentyn yn cael ei darparu'n gywir y tro cyntaf fel y gellir ei asesu a'i dalu ar amser. Bydd angen pethau arnynt fel eu rhif Yswiriant Gwladol, pasbort, manylion cyfrif banc personol a'ch cyfeiriad e-bost, y byddwn yn eu defnyddio i'ch annog i greu neu fewngofnodi i'ch cyfrif, i gefnogi cais eich plentyn.

Os oes gennych blant dibynnol eraill, gwnewch yn siŵr eich bod yn darparu'r wybodaeth hon yn yr adran berthnasol o'r ffurflen gais, yn enwedig os ydynt hefyd mewn addysg uwch. Bydd hyn yn galluogi CMC i asesu hawl myfyriwr yn gywir.

Sut mae ad-daliad yn gweithio?

Yn y mis Ebrill ar ôl i'ch plentyn gwblhau/gadael/tynnu'n ôl o'i gwrs bydd yn dechrau ar ei gyfnod ad-dalu, ond nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bydd angen iddo ddechrau ad-dalu ar yr adeg hon.

Rhaid i fyfyrwyr ennill mwy na'r trothwy ad-dalu lleiaf cyn iddynt ddechrau ad-dalu a'r trothwy ad-dalu ar gyfer myfyrwyr israddedig a ddechreuodd eu cwrs o 1 Medi 2012 fydd **£28,470** (o 6 Ebrill 2025 i 5 Ebrill 2026). Gelwir y rhain yn Fenthyciadau Cynllun Amodol ar Incwm 2 a gosodir y trothwy i gynyddu'n flynyddol yn unol â chynnydd enillion cyfartalog (RPI).

Unwaith y bydd eich plentyn yn gyflogedig ac yn ennill mwy na'r trothwy ad-dalu, bydd didyniadau o 9% ar yr hyn y mae'n ei ennill uwchlaw hyn yn cael ei wneud o'i gyflog drwy system dreth CThEF.

Er enghraifft, yn seiliedig ar y trothwyon ad-dalu presennol, os ydynt yn ennill **£30,000 yn flynyddol gyda chyflog misol o £2,500 yna eu had-daliad misol fyddai £11**. Bydd unrhyw falans benthyciad sy'n weddill yn cael ei ganslo **30** mlynedd ar ôl i'ch plentyn ddechrau ad-dalu, felly efallai **NA** fydd yn ad-dalu'r balans cyfan.

Mae ad-daliadau'n gysylltiedig â'r hyn y maent yn ei ennill ac nid yr hyn y maent wedi'i fenthycia.

Mae Polisi Dileu Rhannol (PCP) Llywodraeth Cymru yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru ac sydd wedi cael benthyciad cynhaliaeth gan CMC ers blwyddyn academiaidd 2010/2011 ar gyfer cwrs israddedig amser llawn. Gall myfyrwyr cymwys gael hyd at £1,500 o'u benthyciad cynhaliaeth cyntaf wedi'i ganslo ar ôl iddynt wneud eu had-daliad cyntaf i'w benthyciad. www.llyw.cymru/cyllid-myfyrwyr-y-cynllun-dileu-rhannol

Negeseuon Allweddol Ad-dalu

Mae'n bwysig bod eich plentyn yn darllen ac yn deall amodau llawn ei fenthyciad myfyriwr. Yn enwedig y gyfradd llog, gan y bydd hyn yn cael ei gymhwyso trwy gydol oes y benthyciad yn seiliedig ar y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) sy'n cael ei addasu bob blwyddyn.

Cyfrifoldeb y myfyriwr yw rhoi gwybod i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr am unrhyw newidiadau i'w amgylchiadau, gan gynnwys os bydd yn newid cyfeiriad, yn rhoi'r gorau i weithio neu'n gadael y deyrnas Unedig am fwy na thri mis i fyw, gweithio neu deithio dramor.

Ni fydd benthyciad myfyriwr yn effeithio ar statws credyd eich plentyn. Mae'n debygol y bydd benthyciwr yn gofyn am fanylion yr ad-daliadau, ond nid ydynt yn cael eu hystyried yn fenthyciadau negyddol ar sgôr credyd.

Gall myfyrwyr ddewis gwneud ad-daliadau ychwanegol tuag at falans eu benthyciad yn ychwanegol at yr ad-daliadau y mae'n rhaid iddynt eu gwneud drwy eu cyflog pan fydd eu hincwm dros y trothwy ad-dalu.

Oherwydd y bydd benthyciad yn cael ei ganslo ar ddiwedd y tymor 30 mlynedd, dylai myfyrwyr ystyried eu sefyllfa yn ofalus cyn gwneud unrhyw ad-daliadau gwirfoddol gan na ellir ad-dalu'r rhain yn ddiweddarach.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: www.gov.uk/repaying-your-student-loan